

Cyfraniadau coll pensiwn y gweithle

Dyma drawsgrifiad Cymraeg o'r [ffurflen we ar-lein](#) y Rheoleiddiwr Pensiynau (Saesneg yn unig).

Mae meysydd a nodir ag * yn orfodol a rhaid eu cwblhau er mwyn cyflwyno'r ffurflen inni.

Sylwch nad yw'r dudalen hon yn cadw fel mater o drefn. Bydd symud i ffwrdd o'r dudalen hon cyn ichi gwblhau'r ffurflen a gwasgu "cyflwyno ffurflen" ar y diwedd yn golygu y collir eich gwybodaeth.

Beth ydych yn adrodd amdano?

A yw eich pryder yn ymwneud ag un neu ragor o'r dilynol? Ticiwch y blwch(blychau) perthnasol: *

- Ni thalwyd eich cyfraniadau pensiwn i'ch cynllun pensiwn ers 90 niwrnod neu'n fwy
- Mae'ch cyflogwr yn anfodlon talu'ch cyfraniadau pensiwn i'ch cynllun pensiwn
- Mae'ch cyfraniadau pensiwn yn cael eu talu'n hwyr i'ch cynllun pensiwn yn gyson
- Rydych yn ystyried y gallai'ch cyflogwr fod yn gweithredu'n dwyllodrus neu'n anonest mewn cysylltiad â'ch cyfraniadau pensiwn

Rhowch wybod inni ers faint o wythnosau neu fisoedd mae'ch cyfraniadau pensiwn wedi bod ar goll, neu ddarparwch ddyddiadau lle maent yn hysbys

Os na wyddoch pryd ddylai'ch cyfraniadau pensiwn wedi cael eu talu i'ch cynllun yna cyfrwch o'r dyddiad y cawsant eu didynnu o'ch cyflog. Os gwyddoch pryd ddylent wedi cael eu talu i'ch cynllun, cyfrwch y nifer o ddyddiau maent wedi bod ar goll o'r dyddiad hwnnw.

Beth yw gwerth llawn y cyfraniadau heb eu talu? *

Os na wyddoch beth yw union werth eich cyfraniadau coll, darparwch amcangyfrif lle mae'n bosibl. Lle darperir amcangyfrif gwnewch hyn yn glir inni.

A wyddoch a yw unrhyw bobl eraill yn eich gweithle weddi'u heffeithio?

- Ydyn
- Nac ydyn

A ydych wedi codi'r pryder hwn gyda'r Rheoleiddiwr Pensiynau o'r blaen?

- Ydw
- Nac ydw

A oes unrhyw wybodaeth bellach hoffech ei rhannu mewn cysylltiad â'ch pryder?

- Oes
- Nac oes

Manylion y cyflogwr a'r pensiwn

A ydych wedi codi'r pryder hwn gyda'ch cyflogwr?

Dylai unrhyw bryder a allai fod gennych mewn cysylltiad â dyletswyddau'ch cyflogwr ynghylch pensiwn y gweithle gael ei godi gyda'ch cyflogwr yn gyntaf, oni bai na allwch wneud hynny.

- Ydw
- Nac ydw

A ydych wedi codi'r broblem hon gyda'ch cynllun neu ddarparwr?

- Ydw
- Nac ydw

Rhowch wybod inni am eich sgwrs gyda'ch cynllun pensiwn neu ddarparwr cynllun pensiwn. Beth oedd y canlyniad? *

Enw'r cynllun pensiwn neu ddarparwr cynllun pensiwn

Enw'r cyflogwr *

Cyfeiriad y cyflogwr

Nodwch y cyfeiriad a chod post lle rydych yn gweithio. Dylai hyn fod eich gweithle ac nid cyfeiriad y brif swyddfa.

- Llinell 1 *
- Llinell 2
- Llinell 3
- Llinell 4
- Llinell 5
- Cod post
- Gwlad

Cyfeirnod PAYE

Er mwyn ein helpu i nodi'ch cyflogwr byddai'n ddefnyddiol gwybod eich cyfeirnod PAYE. Byddwch yn gweld hwn ar eich slip gyfllog neu'ch P60.

Dogfennaeth gefnogol

Darparwch unrhyw wybodaeth arall a allai ein helpu i ddeall eich pryder megis slipiau cyflog neu lythyrau gan eich cyflogwr. Peidiwch â mynd i chwilio am dystiolaeth, darparwch bethau sydd eisoes yn eich meddiant yn unig inni.

Lanlwytho dystiolaeth gefnogol

- ynnu i ffwrdd
- Ychwanegu un arall

Ynglŷn â Chi

Rhowch eich manylion inni rhag ofn y bydd angen inni ofyn ichi am ragor o wybodaeth. Byddwn yn gwneud yn gorau i ddiogelu'ch hunaniaeth ac ni fyddwn ni'n ei datgelu ac eithrio lle mae'r gyfraith yn mynnu ein bod yn gwneud hynny.

Canfod rhagor ynghylch [diogelu'ch hunaniaeth](#).

A allwn ni gysylltu â chi i gael rhagor o fanylion?

- Gallwch
- Na allwch

Teitl

Enw cyntaf

Cyfenw

Cyfeiriad e-bost

Rhif ffôn

Cyn cyflwyno'r ffurflen hon darllenwch y datganiad preifatrwydd isod

Cyflwyno

A fydd fy hunaniaeth yn dod yn hysbys?

Rydym yn deall, pan rowch wybodaeth inni, y gallai gael effaith bosibl ar y berthynas rhyngoch chi a'r rhai hynny rydych yn adrodd amdanynt, yn arbennig rhwng gweithiwr a'u cyflogwr.

Ond gallwch ddewis aros yn ddiennw wrth adrodd am bryderon wrthym felly ni fydd unrhyw un yn gwybod eich hunaniaeth. Fodd bynnag, mae'n ddefnyddiol cael eich manylion cyswllt rhag ofn y bydd angen inni ofyn ichi am ragor o wybodaeth. Mae diogelwch ynghylch chwythu'r chwiban o dan Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 sy'n diogelu'r mwyafrif o gyflogeion os ydynt yn codi pryder ynghylch drygioni – naill ai'n fewnol neu'n allanol.

A fydd fy hunaniaeth wedi'i diogelu os byddaf yn adrodd am bryder?

Byddwn ni'n gwneud ein gorau i ddiogelu'ch hunaniaeth (os ydych yn ei ddymuno) ac ni fyddwn ni'n ei datgelu ac eithrio lle mae'r gyfraith yn mynnu ein bod yn gwneud hynny. Byddwn ni'n cymryd pob cam rhesymol i gynnal cyfrinachedd ond ni allwn ni roi unrhyw sicrwydd pendant gan y gallai amgylchiadau olygu na ellir osgoi datgelu'ch hunaniaeth – er enghraifft os bydd llys yn gorchymyn bod rhaid inni ei datgelu.

Beth sy'n digwydd wedi imi adrodd am bryder?

Wedi ichi adrodd am eich pryder wrthym byddwn ni'n dechrau gwneud ymholiadau cychwynnol ac efallai byddwn ni'n cysylltu â chi er mwyn cadarnhau gwybodaeth (os darparwch eich manylion cyswllt). Nid ydym yn eich annog i geisio cael unrhyw wybodaeth newydd.

Os, yn dilyn asesiad cychwynnol o'r holl wybodaeth, rydym yn ystyried ei bod yn briodol, byddwn ni'n atgyfeirio'ch pryder yn fewnol i ymchwilio iddo. Fodd bynnag, sylwch na allwn ni roi adborth ar ganlyniad unrhyw asesiad nag ar unrhyw ymchwiliad (os cynhelir un) oherwydd cyfyngiadau cyfreithiol.

Datganiad preifatrwydd

Mae'r Rheoleiddiwr Pensiynau'n rheolwr data at ddibenion Deddf Diogelu Data 1998 (DPA). Rydym yn dal a phrosesu, yn unol â'r egwyddorion a gyflwynir yn y DPA, unrhyw ddata personol (gan gynnwys data personol unigolion neu bersonau eraill) a gyflenwir inni yn ystod hynt ymarfer ein swyddogaethau/dyletswyddau statudol.

Gall unrhyw wybodaeth a gyflenwir i'r Rheoleiddiwr Pensiynau gael ei defnyddio (gan gynnwys datgeliad pellach) mewn cysylltiad ag unrhyw un o'n swyddogaethau statudol. I gael rhagor o wybodaeth gwelwch ein [hysbysiad preifatrwydd](#) (Saesneg yn unig).